

Beth sydd wir yn gweithio ar gyfer y blynyddoedd cynnar?



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canllawiau ar gyfer Grant Amddifadedd
Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar

www.llyw.cymru



Ar ddechrau eu taith addysgol, mae dros chwarter o'n dysgwyr yn methu â chael y canlyniadau y mae'r gallu ganddynt i'w cael, dim ond oherwydd eu bod nhw'n dod o gefndir tlawd. Mae'r Astudiaeth Carfan y Mileniwm yn dangos erbyn pump oed gall plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim fod hyd at flwyddyn ar ei hôl hi mewn rhai agweddau ar eu llythrennedd, o'u cymharu â phlant o gefndiroedd mwy llewyrchus. Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae 72 y cant o ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cyrraedd y lefelau cyrhaeddiad disgwyledig, o'u cymharu â bron 89 y cant o deuluoedd gwell eu byd.

Mae'r bwlch mewn cyrhaeddiad yn fwy byth wrth iddynt symud trwy'r system addysg, ac mae tystiolaeth yn dangos mai'r amser gorau i roi sylw i hyn yw yn y blynyddoedd cynnar. Mae Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar (GADBC) yn cynnig cyfle newydd i ysgolion a lleoliadau fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn.



Beth yw Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar?

Mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru sy'n ceisio goresgyn y rhwystrau ychwanegol y mae dysgwyr difreintiedig yn eu hwynebu sy'n eu hatal rhag gwreiddu eu potensial. O 2015–16 mae'r GAD yn cael ei estyn i blant tair a phedair oed yn y Cyfnod Sylfaen. Bydd ysgolion, lleoliadau a gynhelir a nas gynhelir yn cael £300 ar gyfer pob dysgwr cymwys.



Sut gall ysgolion a lleoliadau wneud y defnydd gorau o'r GADBC?

Mae Pecyn Cymorth y Blynyddoedd Cynnar y sefydliad Education Endowment Foundation yn ffynhonnell a brofwyd ac a werthuswyd o ymyraethau effeithiol, ac argymhellir bod ymarferwyr yn cyfeirio ato i gael canllawiau ac ysbrydoliaeth ymarferol.

Mae tystiolaeth o ymarfer llwyddiannus yn addysg y blynyddoedd cynnar, gan gynnwys archwiliad annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru, y gwerthusiad a arweiniwyd gan Brifysgol Caerdydd o'r Cyfnod Sylfaen, a hefyd y gwerthusiad o'r cynllun Dechrau'n Deg, yn awgrymu bod tri phrif faes y dylai ysgolion a lleoliadau ganolbwyntio arnynt wrth ddefnyddio'r GADBC:

- Ymgysylltu â'r teulu
- Addysgeg
- Arweinyddiaeth a datblygu staff.

Ymgysylltu â'r teulu

Mae plant ifanc yn datblygu o fewn system gymhleth o berthnasoedd sy'n cynnwys eu teulu, eu cymuned a'r ysgol. Er mwyn i blant lwyddo, mae'n rhaid iddynt deimlo eu bod nhw mewn amgylchedd dysgu cynnes a gofalgwr sy'n cynnal eu lles, ac mae hyn yn arbennig o wir yn achos plant sy'n byw mewn tlodi neu sy'n derbyn gofal.

Ffordd effeithiol i ddarparwyr y blynyddoedd cynnar ddylanwadu ar y perthnasoedd hyn yw trwy ymgysylltu ag amgylchedd dysgu dysgwyr yn y cartref.

Dylai dulliau effeithiol o ymgysylltu â'r teulu gynnwys y canlynol.

- Grwpiau anogaeth i ddysgwyr a'u teuluoedd.
- Cyfleoedd dysgu i deuluoedd.
- Rhaglenni rhianta.
- Gwaith amlasiantaeth.
- Cyfleoedd i'r gymuned gymryd rhan.

Mae **Ysgol Gynradd Milbrook** wedi'i lleoli yn ardal ddifreintiedig yng Nghasnewydd ac mae tua 30 y cant o'i phlant yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol yn credu'n gryf mewn cefnogi ac ymgysylltu â rhieni/gofalwyr a'r gymuned er mwyn cau'r 'bwlch tlodi'.

Cyn i blant ymuno â'r ysgol, mae staff yn ymweld â phob teulu yn eu hamgylchedd cartref er mwyn dechrau meithrin cysylltiadau â nhw.

Bob dydd lau mae staff ysgol ac asiantaethau partner fel Cymunedau yn Gyntaf yn gwahodd teuluoedd i'r ysgol i wneud prydau bwyd iach a gwaith celf a chrefft.

Mae'r ysgol hefyd yn rhedeg Clwb Gwaith Cartref i'r Teulu bob wythnos yn y llyfrgell leol a Rhaglen Anogaeth i'r plant a dargedwyd a'u teuluoedd sy'n cael ei chyllido ar y cyd gan Gymunedau yn Gyntaf.

Mae'r ysgol hefyd yn cynnig cyfleoedd dysgu i'r teulu i rieni/gofalwyr i'w helpu i roi cymorth gwell i'w plant gyda darllen, llythrennedd a meysydd dysgu eraill.

Mae ymgyrch Llywodraeth Cymru Mae Addysg yn Dechrau yn y Cartref yn annog teuluoedd i chwarae rôl weithredol wrth gefnogi addysg eu plant.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau a phhecyn cymorth i ymarferwyr ar ymgysylltu â'r teulu a'r gymuned ar wefan Dysgu Cymru a bydd yn cael sylw yng nghylchlythyr *Dysg*.

Addysgeg

Gall addysg blynyddoedd cynnar o safon uchel wneud cyfraniad mawr at oresgyn effeithiau anfantais a gwella cyflawniad dysgwyr.

Mae'r archwiliad a'r gwerthusiad o'r Cyfnod Sylfaen wedi nodi ymarfer effeithiol ar gyfer sefydlu'r Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn cynnwys:

- dysgu gweithredol, gan gynnwys datrys problemau, cydweithredu (cyfoed i gyfoed yn aml) a thasgau unigol
- adborth o safon uchel
- cyfleoedd i ddatblygu meddwl.

Mae Ysgol Feithrin Pont-y-Pwll wedi'i lleoli mewn neuadd eglwys ym Mhont-y-Pwll. Mae'r lleoliad yn croesawu plant o ddwy flwydd a hanner hyd nes eu bod nhw'n mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg yn yr ardal ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed.

Mae pob plentyn yn cael ei annog i rannu a mynegi ei farn yn ogystal â'i hoff bethau a'i gas bethau. Mae'r prif ffocws ar ddatblygu sgiliau Cymraeg y plant. Mae cyfleoedd bob dydd i blant archwilio ac arbrofi ym mhob maes dysgu dan do ac yn yr awyr agored. Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd staff yn annog y plant i gychwyn eu dysgu eu hunain.

Mae ystod ac ehangder y profiadau yn golygu bod plant yn hapus ac yn gysurus yn eu hamgylchedd ac yn awyddus i arbrofi, datrys problemau a bod yn anturus yn eu dysgu.

Arweinyddiaeth a datblygu staff

Mae arweinyddiaeth dda yn hollbwysig o ran gwneud defnydd effeithiol o adnoddau fel y GADBC i godi cyflawniad y plant mwyaf difreintiedig yn y blynyddoedd cynnar.

Mae arweinwyr da yn gwneud defnydd effeithiol o bob aelod o staff, gan gynnwys cynorthwyrwyr addysgu. Mae adroddiad diweddar gan y sefydliad Education Endowment Foundation yn cynnwys argymhellion i helpu ysgolion i sicrhau bod cynorthwyrwyr addysgu yn cael yr effaith fwyaf bosibl, gan gynnwys:

- defnyddio cynorthwyrwyr addysgu i ychwanegu gwerth at yr hyn y mae athrawon yn ei wneud, nid cymryd lle'r athrawon
- sicrhau bod cynorthwyrwyr addysgu wedi'u paratoi'n dda ar gyfer eu rôl yn yr ystafell ddosbarth
- defnyddio cynorthwyrwyr addysgu i ddarparu cymorth grŵp bach ac un-i-un o safon uchel gan ddefnyddio ymyraethau strwythuredig.

Bydd hyfforddi cynorthwyrwyr addysgu i wneud y gwaith hwn i lefel uchel yn golygu y gall athrawon profiadol a hynod effeithiol gael eu rhyddhau i weithio gyda dysgwyr difreintiedig a fydd yn elwa mwyaf o'u harbenigedd.

Mae ymchwil yn dangos bod y gwahaniaeth rhwng cael athro da/athrawes dda ac athro gwael/athrawes wael yn gyfwerth â blwyddyn gyfan o ddysgu i ddysgwyr o gartrefi incwm isel (Sutton Trust, 2011). Mae darparwyr y blynyddoedd cynnar yn cael eu hannog i uwchsgilio eu staff a gall

y GADBC gael ei ddefnyddio i dalu am hyfforddiant. Mae darparwyr hefyd yn cael eu hannog i gronni eu hadnoddau gydag ysgolion a lleoliadau eraill er mwyn prynu hyfforddiant ar y cyd.

Mae cydweithredu yn cael ei annog a gall arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau gael y defnydd gorau o'r GADBC drwy gydweithio ag asiantaethau/rhaglenni fel Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Chymunedau yn Gyntaf os ydynt yn gweithredu yn eu hardal.

Ffocws ymarferol posibl ar gyfer y dulliau gweithredu ar y cyd hyn fyddai profiadau 'ymarferol', fel ymweliadau ag amgueddfeydd, theatrau, trefi, safleoedd hanesyddol ac ati. Gall profiadau o'r fath gyfrannu at brofiadau diwylliannol a chymdeithasol plant nad ydynt yn cael mwynhau cyfleoedd o'r fath yn aml.

Mae bron 40 y cant o'r dysgwyr yn **Ysgol Gynradd Gymunedol Maes-y-Morfa** yn Llanelli yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Dros y pedair blynedd diwethaf bu'r ysgol yn cydweithio'n agos â Dechrau'n Deg i sicrhau bod ganddi wybodaeth dda am yr 84 y cant o ddysgwyr sydd wedi cael cymorth Dechrau'n Deg cyn dechrau'r ysgol.

Mae'r gwaith gyda Dechrau'n Deg yn helpu'r ysgol i drefnu eu hadnoddau yn fwy effeithiol er mwyn ymateb i broblemau sydd wedi cael eu nodi yn y cyfnod cyn-ysgol a pharhau i weithio gyda phartneriaid amlasiantaeth i ymgysylltu a chefnogi teuluoedd. Mae hyn yn darparu pont amhrisiadwy gyda'r cyfnod cyn-ysgol a theuluoedd ac yn sicrhau bod dysgwyr yn llawer mwy parod i ddysgu a manteisio ar y cwricwlwm.

Gall pontio o amgylchedd cartref, Dechrau'n Deg, ysgol feithrin neu leoliadau cyn-ysgol eraill fod yn anodd i bob plentyn. Gall arweinwyr ddefnyddio'r mesur 'bod yn barod am ysgol' i fonitro effaith y GADBC a sefydlu:

- cyrhaeddiad academiaidd, fel gallu adnabod llythrennau a rhifau
- datblygiad cymdeithasol ac emosiynol, gan gynnwys gallu plant i gydweithredu a chymdeithasu â phlant eraill; canolbwyntio a bod yn hyderus pan fydd eu rhieni/gofalwyr yn eu gadael nhw am y dydd; a rheolaeth echddygol fel gallu defnyddio cyllell a fforc neu ddal pensil.

Cynllunio'r defnydd llwyddiannus o'r GADBC

Tasg allweddol i arweinwyr yw cynllunio, monitro a gwerthuso'r defnydd o'r GADBC, gan gyfeirio at y canllawiau *Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynnyddoedd Cynnar* (Llywodraeth Cymru, 2015).

Dylai hyn gynnwys y tri maes sy'n cael sylw yn y ddogfen hon: Ymgysylltu â'r teulu; Addysgeg; Arweinyddiaeth a datblygu staff.



Camau i lwyddiant – pwyntiau gweithredu a chrynodeb

- 1** Datblygu perthnasoedd rhwng y cartref a'r ysgol drwy ymyraethau ymgysylltu â'r teulu fel grwpiau anogaeth, cyfleoedd dysgu i deuluoedd, rhaglenni rhianta, gwaith amlasiantaeth a chyfranogiad cymunedol.
- 2** Helpu teuluoedd i gefnogi addysg eu plant yn y cartref drwy roi cynghorion a gweithgareddau iddynt neu eu hannog i ymgysylltu â'r ymgyrch Mae Addysg yn Dechrau yn y Cartref.
- 3** Defnyddio dulliau seiliedig ar dystiolaeth mewn cyd-destun fel y rhai sydd wedi'u cynnwys ym mhecyn cymorth y sefydliad Education Endowment Foundation ar gyfer y blynyddoedd cynnar.
- 4** Defnyddio dysgu gweithredol, adborth o safon uchel a datblygu sgiliau meddwl dysgwyr.
- 5** Sicrhau bod ymarfer da yn cael ei rannu gan bob aelod o staff.
- 6** Defnyddio'r GADBC i wella ansawdd pob aelod o staff drwy ddatblygiad proffesiynol a'r defnydd o athrawon ymgynghorol.
- 7** Gwneud defnydd effeithiol o gynorthwywyr addysgu drwy eu cael nhw i wneud pethau penodol a defnyddio cyllid y GADBC ar gyfer datblygu staff i gefnogi hyn. Sicrhau bod hyn yn rhyddhau athrawon mwy profiadol ac effeithiol i weithio gyda'r plant mwy anghenus.
- 8** Monitro a gwerthuso eich ymyraethau er mwyn sicrhau eich bod chi'n cael y canlyniadau roeddech chi wedi gobeithio eu cael.
- 9** Defnyddio'r mesur 'bod yn barod am ysgol' i asesu effeithiolrwydd eich dulliau gweithredu, gan gynnwys bod yn barod i ddysgu a chael sgiliau cymdeithasol a phersonol priodol.
- 10** Cronni adnoddau a chydweithio ag ysgolion a lleoliadau eraill i wneud y mwyaf o'ch grant.
- 11** Mabwysiadu dull amlasiantaeth ac ymgysylltu â rhaglenni fel Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Chymunedau yn Gyntaf i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o gyllid y GADBC.



Adnoddau a chyhoeddiadau defnyddiol

A review of practice in the implementation of the early language development support element within Flying Start

(Llywodraeth Cymru, 2014)

www.gov.wales/statistics-and-research/review-practice-implementation-early-language-development-support-element-within-flying-start/?skip=1&lang=cy

Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

(Llywodraeth Cymru, 2013)

www.gov.wales/topics/educationandskills/earlyyearshome/building-a-brighter-future-early-years-and-childcare-plan/?lang=cy

Ailysgrifennu'r dyfodol: Codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru

(Llywodraeth Cymru, 2014)

www.gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/deprivation/rewriting-the-future-schools/?lang=cy

Archwiliad annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru

(Llywodraeth Cymru, 2014)

www.gov.wales/topics/educationandskills/earlyyearshome/foundation-phase/stocktake-of-the-foundation-phase-final-report/?skip=1&lang=cy

Dechrau'n Deg – Atodiad: Canllawiau Pontio

(Llywodraeth Cymru, 2014)

www.gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/141124-transition-guidance-cy.pdf

Early Years Toolkit

(Education Endowment Foundation, 2015)

www.educationendowmentfoundation.org.uk/toolkit/early-years/

Exploring Effective Pedagogy in Primary Schools: Evidence from Research

(Pearson, 2014)

https://research.pearson.com/content/plc/prkc/uk/open-ideas/en/articles/explore-eppse/_jcr_content/par/articledownloadcompo/file.res/Exploring%20Effective%20Pedagogy%20in%20Primary%20Schools.pdf

Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar: Adnodd i Arweinwyr ac Ymarferwyr

(Chicken, Egan, Siraj a Waters, Canolfan Cymru er Cydraddoldeb mewn Addysg, 2015)

Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen

(Llywodraeth Cymru, 2015)

www.gov.wales/statistics-and-research/evaluation-foundation-phase/?lang=cy

Improving the impact of teachers on pupil achievement in the UK – interim findings

(Sutton Trust, 2011)

www.suttontrust.com/wp-content/uploads/2011/09/2teachers-impact-report-final.pdf

Making Best Use of Teaching Assistants

(Education Endowment Foundation, 2015)

www.educationendowmentfoundation.org.uk/news/teaching-assistants-should-not-be-substitute-teachers-but-can-make-a-real-d/

Mynd i'r afael â difreintedd a chodi safonau

(Estyn, 2014)

www.estyn.gov.uk/cymraeg/arfer-orau/mynd-ir-afael-difreintedd-a-chodi-safonau/

Rhianta yng Nghymru: Canllawiau ar ymgysylltiad a chymorth

(Llywodraeth Cymru, 2014)

www.gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/140910-parenting-in-wales-guidance-cy.pdf

The DIY Evaluation Guide

(Education Endowment Foundation, 2013)

www.educationendowmentfoundation.org.uk/evaluation/diy-evaluation-guide/

Paratowyd y canllawiau hyn ar ran Llywodraeth Cymru gan Dr Sarah Chicken, yr Athro David Egan, Alys Parkins, yr Athro Iram Siraj a Dr Jane Waters yng Nghanolfan Cymru er Cydraddoldeb mewn Addysg, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.